

Swyddog Cyfathrebu a Marchnata

Gwybodaeth Allweddol

Yn Adrodd i	Rheolwr Cyfathrebu
Contract	Llawn Amser, Parhaol (Ystyrir rhannu swydd)
Cyflog	£25,612 - £28,756, codiad cyflog yn yr arfaeth
Lleoliad	Cyfuniad o swyddfa (Caerdydd) a gweithio gartref
Dyddiad Cau	Dydd Llun 10 Hydref 2022

Trosolwg o'r Rôl

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â rôl gyfathrebu a marchnata cyffrous a heriol yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr Polisi a Materion Cyhoeddus ac adrodd i'r Rheolwr Cyfathrebu, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain ar gynnal a datblygu llwyfannau marchnata digidol y sefydliad i hyrwyddo manteision addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddant yn gyfrifol am gyfleu negeseuon allweddol y sefydliad yn glir i'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi cydweithwyr ColegauCymru i hybu ein hunaniaeth brand ac ehangu ymwybyddiaeth o bwrpas, gweithgareddau, a blaenoriaethau ColegauCymru.

Ar hyn o bryd mae hwn yn gyfle gweithio gartref yn bennaf ond bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n rheolaidd o swyddfeydd ColegauCymru yng Nghaerdydd, felly mae'r gallu i gymudo yma yn hanfodol ar gyfer y dyfodol. Efallai y bydd angen parodrwydd i deithio ledled Cymru, yn y DU ac yn rhyngwladol weithiau, a gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.

Prif Ddyletswyddau

- Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno mentrau cyfathrebu dwyieithog effeithiol ar draws llwyfannau ar-lein yn bennaf (gan gynnwys gwefan, cyfryngau cymdeithasol, e-bost) i hysbysu rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Gweithio gyda chydweithwyr ColegauCymru a phartneriaid allanol i greu a hwyluso cyfathrebu effeithiol a monitro llwyddiant yn unol â hynny.
- Arwain ar sicrhau bod holl llwyfannau digidol ColegauCymru yn cael eu diweddarau, eu cynnal a'u datblygu'n rheolaidd, gan adolygu a gwella taith/ymgysylltiad defnyddwyr yn barhaus.

- Hyrwyddo'r defnydd o frandio ac arddull tŷ'r sefydliad ac arwain ar ei weithrediad, gan gynnwys cefnogi cydweithwyr i wneud defnydd effeithiol o frand ColegauCymru a chanllawiau cysylltiedig trwy gynhyrchu deunyddiau digidol o ansawdd uchel a darparu arweiniad ar draws y sefydliad.
- Cynnal ac adeiladu presenoldeb ac enw da digidol ColegauCymru, gan gynnwys rheoli llyfrgell o gynnwys y gellir ei aildefnyddio.
- Cynhyrchu a chynnal cyfathrebiadau mewnol ac allanol dwyieithog ColegauCymru, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau marchnata, cyhoeddiadau, cylchlythyrau, gwahoddiadau, hysbysebion, ac adroddiadau blynyddol.
- Gan ddefnyddio offer gwerthuso, cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac ymgysylltiad amrywiol lwyfannau digidol ColegauCymru i ffurfio rhan o bapurau ar gyfer Fforwm y Penaethiaid a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Drafftio copi deniadol, wedi'i deilwra i wahanol gynulleidfaoedd ac ar draws sawl sianel, gan gynnwys ysgrifennu blogiau, datganiadau i'r wasg, ac ymatebion i ymholiadau'r cyfryngau.
- Dod o hyd i gynnwys, straeon, defnyddio menter i ysgogi diddordeb a chreu cyfleoedd cyfryngau newydd.
- Cofnodi ac adrodd ar sylw ar-lein ac yn y cyfryngau traddodiadol.
- Arwain ar agweddau o gynhyrchu a marchnata digwyddiadau ColegauCymru, gweminarau, podlediadau a mentrau eraill yn ôl yr angen.
- Cefnogi cydweithwyr yn y Tîm Datblygu i gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata.
- Awgrymu a phrofi dulliau arloesol o gyfathrebu digidol a digwyddiadau sy'n herio arferion traddodiadol a ffyrdd o wneud pethau.
- Monitro a dadansoddi datblygiadau yn y maes cyfathrebu esblygol, gan chwilio am gyfleoedd i ColegauCymru elwa ar welliannau.
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cyfathrebu.

Gofynion Iaith Gymraeg

Gofynion iaith Gymraeg Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Gymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.

Mae sgiliau Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Anogir ymgeiswyr nad oes ganddynt sgiliau iaith Gymraeg neu nad yw eu sgiliau ar hyn o bryd yn cwrdd â'r lefel a ddymunir ond sy'n gallu dangos ymrwymiad i wella lefel eu cymhwysedd. Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn.

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol
Gradd neu gymhwyster a/neu brofiad proffesiynol perthnasol.
TGAU Saesneg a Mathemateg Gradd C neu uwch.
Profiad o gyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu digidol integredig a gwerthuso eu llwyddiant.
Profiad o fonitro a gwerthuso amrywiaeth o lwyfannau digidol ac argymell gwelliannau i gynyddu ymgysylltiad.
Gwybodaeth am Google Analytics ac offer eraill i fonitro traffig gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu adroddiadau a gwella perfformiad ar-lein.
Sgiliau ysgrifennu a golygu ardderchog gyda phwyslais ar ddatblygu copi hygyrch, yn ddelfrydol ar gyfer sianeli digidol.
Profiad o arwain ar ddatblygu a chyflwyno gweithgarwch cyfathrebu digidol creadigol a chyfryngau cymdeithasol.
Profiad o olygu gwefan.
Y gallu i weithio dan bwysau, i derfynau amser tynn a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.
Profiad o gwblhau tasgau i gyllidebau y cytunwyd arnynt, o fewn amserlenni a safonau a osodwyd.
Profiad o ddefnyddio technoleg sy'n berthnasol i'r gwaith a'r gallu i nodi a dewis y dechnoleg fwyaf priodol ar gyfer tasgau penodedig.
Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a phrofiad o gyfathrebu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid allanol, aelodau a staff.
Agwedd gadarnhaol ac ymarferol at ddatrys problemau.
Meini Prawf Dymunol
Dealltwriaeth o'r sector addysg ôl-16 yng Nghymru.
Sgiliau Cymraeg.

Y Broses Ymgeisio

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni pob agwedd ar Fanyleb y Person. Yn ogystal, er mwyn ystyried eich cais, **atebwch y pedwar cwestiwn isod** (uchafswm o 200 gair fesul cwestiwn).

1. Yn eich barn chi, pa sgiliau sydd eu hangen ar Swyddog Cyfathrebu a Marchnata i fod yn llwyddiannus?
2. Rhowch enghraifft o sut y byddech chi'n mesur ymgyrch farchnata ddigidol.
3. Amlinellwch pa Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y byddech chi'n eu defnyddio mewn adroddiadau gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
4. Amlinellwch pa welliannau cyfathrebu digidol y byddech yn eu hargymell i ColegauCymru.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnwn ichi lenwi ein Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pan fyddwch yn gwneud cais. Mae hyn yn wirfoddol, ac yn anhysbys, ond mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn gynhwysol yn ein recriwtio.

Gwiriad Datgelu DBS

Sylwch y gall yr ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dyddiad Cau

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk erbyn **12.00pm ddydd Llun 10 Hydref 2022**.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar os byddwn yn derbyn digon o geisiadau ar gyfer y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosibl.

Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau **yr wythnos yn dechrau 17 Hydref 2022**, wyneb yn wyneb. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at HR@colegaucymru.ac.uk